# Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher 20 Mehefin 2012 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr D Owens (Cadeirydd) I W Armstrong, B Blakeley, J A Butterfield, W L Cowie, J.M. Davies M Ll Davies, R J Davies, R L Feeley, C. L. Guy-Davies, H Hilditch-Roberts, C. Hughes, , P M Jones, M McCarroll, W M Mullen-James, R M Murray, P W Owen,  A Roberts, W.N. Tasker, J Thompson-Hill, C H Williams, a C L Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Rheoli Datblygiad (Paul Mead), Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Prif Gyfreithiwr – Cynllunio a Phriffyrdd (Susan Cordiner), Arweinydd Tîm (Gwen Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Chyfieithydd (Catrin Gilkes).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.A. Davies, E.A. Jones, T M Parry. D Simmons, J S Welch a H O Williams.
Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Graham Boase, Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio.

## 2 DATGANIADAU BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd M. Lloyd Davies fuddiant yng nghais 46/2011/0998/PC (Rhosfryn, 9 Chester Street, Llanelwy) a'r adroddiad gorfodi cysylltiedig.

## 3 EITEMAU BRYS:

**APÊL CYNLLUNIO    CAIS 01/2011/0621/ PF**

Gosod 20 o letyau gwyliau, yn ogystal â mynediad a lle parcio cysylltiedig, a gosod gwaith trin carthion.

Y GLYN, PARC LLEWENI, DINBYCH

## 4 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) gan y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio, yn rhifo ceisiadau a gyflwynwyd ac yn gofyn am benderfyniadau gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio yn ôl yr achos, fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref 1991 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r cynigion sy'n cynnwys y ceisiadau canlynol yn ôl yr amodau sydd wedi'u rhifo yn yr atodlen a gyflwynwyd:-*

**Rhif y Cais:** 02/2012/0241/PF

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Tir yn (rhan o ardd) Llys Deri, Bryn Goodman, Rhuthun** |
| **Disgrifiad:** | Newidiadau yn y mynediad i gerbydau a ganiatawyd o'r blaen o dan God Rhif 02/2011/0167 i'r annedd presennol a'r annedd newydd arfaethedig. |

Rhoddwyd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol yn yr adroddiad Gwybodaeth Hwyr a gylchredwyd yn y cyfarfod:

- Llythyr o wrthwynebiad a gafwyd gan Mr B Owen (ar ran Mr a Mrs Aiyar, Oaklea, Bryn Goodman, Rhuthun)
- Asiant yr Ymgeisydd yn rhoi gwybod am yr ymdrechion i gyd-drafod penderfyniad.
- Adroddiad am Ymweliad Safle a gafwyd ddydd Llun 18 Mehefin 2012

Nid oedd y Cynghorydd R L Feeley yn fodlon derbyn yr argymhelliad i roi caniatâd. Roedd yn teimlo bod safle'r mynediad gwreiddiol yn well.

Bu'r Prif Swyddog Cynllunio, Ian Weaver, yn rhoi gwybod am yr ymweliad safle a bu'n egluro cefndir y cais. Rhoddwyd caniatâd i annedd newydd sydd bellach yn cael ei adeiladu ond roedd anghydfod ynglŷn â pherchenogaeth y tir felly cyflwynwyd cais i newid y trefniadau mynediad. Byddai'r cynnig yn arwain at waredu 2m o hyd o glawdd ffawydd. Bu iddo gyfaddef ei fod yn credu mai'r cytundeb blaenorol oedd y dewis gwell ond ei fod yn angenrheidiol i ymdrin â'r cais fel y mae. Ni chafwyd gwrthwynebiad gan yr adran Priffyrdd oherwydd nid yw rhannu mynediad yn anghyffredin. Nid oedd colli clawdd yn afresymol, ac nid oedd llawer i wrthod caniatâd yn ei gylch.

Nid oedd y Cynghorydd Feeley yn credu bod y sefyllfa'n dderbyniol.

Nid oedd y Cynghorydd M. Ll. Davies wedi gallu mynd ar yr Ymweliad Safle felly roedd wedi bod i'r safle ei hun y bore hwnnw. Roedd yn teimlo y gallai fod yn broblem pan fydd y tai'n cael eu gwerthu ond roedd yn fater i'r gwerthwr, nid i'r Pwyllgor Cynllunio.

Cynigiodd y Cynghorydd M. Ll. Davies ROI CANIATÂD ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Brian Blakely.

| | |
|---|---|
| **PLEIDLAIS:** | **21 pleidlais i ROI CANIATÂD**<br>**1 bleidlais i WRTHOD**<br>**Dim ymataliad** |

**<u>RHODDWYD</u> CANIATÂD FELLY**

***Yn amodol ar:***

Beidio â chael unrhyw wrthwynebiadau pellach nad ydynt eisoes wedi cael sylw yn yr adroddiad erbyn 22 Mehefin 2012.

Diwygio amod 8 fel isod:

8. Ni chaniateir ar unrhyw adeg unrhyw glwydi, ffensys, waliau na moddau eraill o gau na rhwystr parhaol rhag defnyddio'r mynediad / ardal droi a gymeradwyir drwy hyn, heblaw gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

   *Rheswm:* Sicrhau bod y mynediad a'r ardaloedd troi'n cael eu cadw'n rhydd o rwystrau, er mwyn i gerbydau sy'n ceisio cyrraedd a gadael yr eiddo symud yn rhwydd.

Ychwanegu nodyn i'r ymgeisydd:
Mae'r Awdurdod wedi cael gwybod am gynrychiolaeth trydydd parti dros faterion perchenogaeth tir yng nghyffiniau safle'r cais. Ni all yr Awdurdod chwarae ddim rhan mewn penderfynu anghydfodau perchenogaeth, ond fe'ch cynghorir i sicrhau bod modd gweithredu'r caniatâd ar dir sydd dan reolaeth yr ymgeisydd.

**Rhif y Cais:** 20/2011/1138/PF

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Tir yn Tyn y Celyn, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun** |
| **Disgrifiad:** | Dymchwel dau adeilad carreg diangen a chodi annedd gweithwyr amaethyddol |

TYNNWYD Y CAIS HWN YN ÔL GAN ASIANT YR YMGEISYDD AR 19 MEHEFIN 2012

## Rhif y Cais: 24/2012/0127/PC

**Lleoliad:** **Bod Ynys, Rhewl, Rhuthun**

**Disgrifiad:** Adeiladu storfa fiswail gron – manylion wedi'u diwygio (cais ôl-weithredol)

Roedd y Cynghorydd Cheryl Williams yn dymuno nodi nad hi oedd y Cheryl Williams a oedd wedi ysgrifennu i wrthwynebu'r datblygiad hwn.

Rhoddwyd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol yn yr adroddiad Gwybodaeth Hwyr yn y cyfarfod:

- Roedd y llythyrau gwrthwynebiad a gafwyd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:
  Bod y cais yn annilys
  Bod effaith weledol annerbyniol
  Effaith annerbyniol ar amwynder preswyl

- Gohebiaeth gan y Cynghorydd M Parry yn gofyn am ohirio'r cais

- Sylw swyddogion am argymhelliad DEFRA am y pellter i ffwrdd o eiddo preswyl

Cyfeiriodd y Cynghorydd Colin Hughes at gais y Cynghorydd Merfyn Parry, y rhoddwyd gwybod amdano, i ohirio ystyried yr eitem hon a gofynnodd am farn y swyddogion. Dywedodd y swyddogion nad oedd unrhyw resymau cadarn dros ohirio – roedd y cais wedi'i ohirio cyn yr Etholiadau Lleol, cafwyd ymweliad safle ac roedd gwybodaeth bellach wedi'i chael. Roedd y Cyngor mewn perygl apêl yn erbyn Dim Penderfyniad a fyddai'n golygu mai'r Arolygiaeth Gynllunio a fyddai'n gwneud y penderfyniad. Gallai swyddfa'r Ombwdsmon ystyried bod gohiriad pellach yn niweidiol wrth wneud dyfarniad am y gŵyn a gafodd.

**Siaradwyr Cyhoeddus:**

**Mr E Jones (Yn Erbyn)**

Mr E Jones yw un o gymdogion yr eiddo ac roedd wedi gwrthwynebu safle'r tanc. Roedd yn teimlo bod effaith weledol annerbyniol ac na fyddai sgrin na phaent yn helpu hynny. Roedd hefyd yn gwrthwynebu'r aroglau a fyddai'n dod o'r tanc, ac nid oedd yn teimlo y byddai'r cynnig rheoli arogl yn helpu hyn. Dywedodd hefyd y dylid symud y tanc a gosod caead arno.

**Mr Dewi Roberts (o blaid)**

Mr Dewi Roberts yw'r ffermwr sy'n denant yn Bod Ynys. Bu'n rhaid iddo osod storfa fiswail newydd i gydymffurfio â rheolau newydd y Parthau Perygl Nitradau. Roedd ganddo ganiatâd cynllunio hefyd am danc 23m o ddiamedr ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad. Wrth archebu'r tanc hwn, roedd sïon yn cylchredeg y byddai angen tanciau mwy cyn bo hir felly penderfynodd osod un mwy o faint. Roedd yn credu y byddai'n fantais i bawb am na fyddai angen ei wacau mor aml, gan felly leihau'r arogl pan aflonyddir ar y biswail. Roedd yn fodlon cysgodi'r tanc a'i beintio. Dywedodd mai dim ond 25m i ffwrdd o'r hen danc ydoedd ac felly roedd yn teimlo na fyddai'r arogleuon ddim gwaeth.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, wrth y pwyllgor fod caniatâd wedi'i roi eisoes am storfa fiswail ond bod un mwy o faint wedi'i adeiladu. Cyflwynwyd cais wedi'i ddiwygio i reoleiddio'r sefyllfa. Roedd yr eitem wedi'i gohirio o'r blaen a'i hatal oherwydd bod cynlluniau ychwanegol wedi cyrraedd a bod gofyn ymgynghori ymhellach arnynt hwy. Mae angen y storfa hon ar gyfer deddfwriaeth Parthau Perygl Nitradau ac nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwrthwynebu o gwbl.

Codwyd y cwestiynau canlynol gan yr Aelodau:

Holodd y Cynghorydd Win Mullen James pa mor ymarferol y byddai gosod caead ar y tanc.
Gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am adroddiad am yr ymweliad safle:
Gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch –Roberts am eglurhad am y materion cynllunio yn hytrach na'r materion amgylcheddol.
Roedd y Cynghorydd Colin Hughes yn synnu bod y cais blaenorol wedi'i benderfynu gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig a holodd a oedd yr ymweliad safle wedi bod mewn perthynas â'r storfa fiswail neu'r adeiladau amaethyddol newydd.

Atebodd y Swyddog Cynllunio, David Roberts.

- Cynhaliwyd yr ymweliad safle ar yr un pryd â rhyddhau'r cais am dai i'w benderfynu, ond roedd yr ymweliad ar gyfer ystyried y cais am storfa fiswail. Disgrifiwyd nodiadau'r cyfarfod ymweliad safle yn adroddiad y pwyllgor.

- Dywedodd wrth y pwyllgor y dylai benderfynu'r cais fel yr oedd (heb gaead) ond gallai'r swyddogion archwilio posibilrwydd yr ymgeisydd yn gosod caead yn y dyfodol.

- Ymdriniwyd â'r cais blaenorol o dan Bwerau Dirprwyedig oherwydd ni chafwyd dim gwrthwynebiad iddo.

- Materion amgylcheddol - gofynnwyd bod y tanc yn cael ei lenwi o'r gwaelod er mwyn cadw cramen ar ben y biswail; byddai hyn yn cwtogi ar aroglau. Mae rheoliadau'r Parthau Perygl Nitradau'n gofyn am werth 6 neu 7 mis o storio ac mae'r tanc hwn yn dderbyniol ond nid yw'n rhy fawr.

- Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ei rheoliadau ei hun ac mae'n gofyn bod cyrsiau dŵr yn cael eu gwarchod. Rhaid i ffermydd gwaith gael storfeydd biswail. Yn yr achos hwn, mae'n ddigon pell i ffwrdd o eiddo a bydd yn cael ei sgrinio.

Holodd y Cadeirydd am y Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r cais cynllunio gwreiddiol. Eglurodd Paul Mead, y Rheolwr Rheoli Datblygiad, nad oedd hyn yn berthnasol i asesu'r cynnig cyfredol ond bod y cais gwreiddiol wedi cael sylw yn unol â'r Cynllun Dirprwyo.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd B Blakely ROI CANIATÂD i'r eitem hon**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd J Thompson Hill**

**PLEIDLAIS:**
**18 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**3 pleidlais i WRTHOD**
**1 ymataliad**

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**

***Yn amodol ar:***
**Amod Diwygiedig 1**

1. Bydd wynebau allanol paneli concrit y storfa a gymeradwyir drwy hyn yn cael eu peintio mewn lliw gwyrdd tywyll heb fod yn hwyrach na 30 Medi 2012. Bydd y lliw gwirioneddol fel y ceir cytuno arno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn bod unrhyw beintio'n digwydd, a bydd paneli'r storfa'n cael eu cynnal drwy'r amser yn y lliw y cytunwyd arno.

**Amod Diwygiedig 3**

3. Er y manylion a gyflwynwyd, ni chaniateir i'r tanc biswail barhau i weithredu ar ôl 30 Medi 2012 heblaw yn unol â Chynllun Rheoli Aroglau; bydd manylion y cynllun hwn yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a byddant yn cynnwys manylion i gwtogi ar aroglau o'r tanc yn ystod prosesau llenwi'r tanc biswail, storio biswail a gwacau'r tanc biswail. Bydd y tanc yn gweithredu'n unol â'r cynllun a gymeradwywyd drwy'r amser wedi hynny.
   *Rheswm:* I sicrhau camau lliniaru rhesymol ar gyfer rhyddhau arogl mewn cysylltiad â gweithredu'r tanc biswail, er mwyn amwynder preswyl.

**Nodyn i'r ymgeisydd**
Fe'ch atgoffir fod angen sicrhau bod y manylion sy'n ofynnol gan Amodau 1 a 3 o'r caniatâd hwn yn cael eu cyflwyno'n gynnar, a bod y datblygiad wedi'i gwblhau yn unol â chymeradwyo manylion felly gan y Cyngor heb fod yn hwyrach na 30 Medi 2012.

**Rhif y Cais:** 24/2012/0382/PF

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Parsel OS Rhif 8912 ger Glanynys, Llanynys Dinbych** |
| **Disgrifiad:** | Adleoli 2 o lochesau cae presennol, codi storfa newydd ar gyfer bwyd/offer (yn rhannol ôl-weithredol) |

Rhoddwyd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol yn yr adroddiad Gwybodaeth Hwyr a gylchredwyd yn y cyfarfod:

V Kalities, Glanynys Bach, Llanynys
Mr a Mrs H J Varney, Glanynys, Llanynys
A a B Isaac, Tai Newydd, Llanynys (heb ei lofnodi)
J Beasley, Glyn Cottage, Llanynys (heb ei lofnodi)

Ni chafwyd dim dadl am yr eitem hon.

Cynigiodd y Cynghorydd J Butterfield ROI CANIATÂD
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Brian Blakely

**PLEIDLAIS:**
**22 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**0 pleidlais i WRTHOD**
**0 ymataliad**

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**

**Rhif y Cais:** 45/2012/0383/PFRE

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Ysgol Uwchradd a Chanolfan Hamdden y Rhyl, 86 Grange Road, y Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | Gosod system wresogi biomas hunangynhwysol gyda chyfleuster seilo allanol i wresogi'r ganolfan hamdden a'r pwll nofio |

Holodd y Cynghorydd Win Mullen Jones sut byddai nwyddau'n cael eu dosbarthu i'r safle ac roedd y Cynghorydd J Butterfield yn poeni am y gost.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, fod y trefniadau mynediad presennol yn ddigon da ac nad lle'r pwyllgor cynllunio oedd trafod peryglon posibl y dyfodol. Byddai'r system wresogi'n gwresogi'r ganolfan hamdden. Gofynnodd y Cynghorydd M Ll. Davies pam oedd cyflenwyr a ffafrir yn cael eu henwi yn yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, mai dyfynbris oedd hwnnw o'r Datganiad Dylunio a Mynediad a ddarparwyd gyda'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd B Blakely ROI CANIATÂD
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Cheryl Williams.
Ar fwrw pleidlais, cafwyd

**22 pleidlais i ROI**
**0 pleidlais i WRTHOD**
**0 ymataliad**

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**

***Yn amodol ar:***

**Ddiwygio Amod 3**

3. Bydd uchder y ffliw fel y'i dangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd a bydd cais cynllunio o'r newydd yn ofynnol ar gyfer unrhyw amrywiad.

**Diwygio Amod 4**
Ychwaneger ar y diwedd …….
Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd mewn perthynas â'r amod hwn

**Rhif y Cais:** 46/2011/0998/PC

**Lleoliad:** **Rosfryn 9 Chester Street Llanelwy**

**Disgrifiad:** Cadw tŷ gwydr, newidiadau yn nho'r gegin yn y cefn ac ail-rendro blaen yr annedd

Datganodd y Cynghorydd M Lloyd Davies fuddiant yn y cais hwn a gadawodd y Siambr yn ystod y broses o ystyried y cais.

Ni chafwyd dadl am yr eitem hon.

**Cynigiodd y Cynghorydd Bill Cowie WRTHOD hyn**
**Eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts**

**PLEIDLAIS:**
**2 bleidlais i ROI CANIATÂD**
**17 pleidlais i WRTHOD**
**1 ymataliad**

**GWRTHODWYD CANIATÂD FELLY**

**Rhif y Cais:** 46/2011/0998/PC

**Lleoliad:** **Rosfryn 9 Chester Street Llanelwy**
**Adroddiad Gorfodi** –

**Disgrifiad:** Datblygiad anawdurdodedig – codi estyniad

Datganodd y Cynghorydd M Lloyd Davies fuddiant yn yr eitem hon a gadawodd y Siambr yn ystod y broses o'i hystyried.

Gofynnodd y swyddogion am awdurdodiad i gymryd camau gorfodi i waredu'r estyniad anawdurdodedig, gan ganiatáu cyfnod cydymffurfio o chwe mis.

Cynigiodd y Cynghorydd J Thompson Hill roi awdurdodiad.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Cowie

**O fwrw pleidlais, cafwyd**
**18 pleidlais i awdurdodi'r camau gorfodi**
**0 pleidlais yn erbyn.**

**PENDERFYNWYD FELLY:**

Rhoi'r awdurdodiad ar gyfer y canlynol:

(i) Rhoi Hysbysiad Gorfodi i sicrhau bod yr estyniad anawdurdodedig yn cael ei waredu cyn pen chwe mis

(ii) Dechrau achos erlyn, neu'r achos priodol o dan y Deddfau Cynllunio, yn erbyn yr unigolyn, neu'r unigolion, y gosodir unrhyw Hysbysiad Gorfodi, neu Hysbysiad arall felly arno, neu y cymerir camau cyfreithiol yn ei erbyn os bydd yn methu â chydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad Gorfodi.

## 8 APÊL CYNLLUNIO: Y Glyn, Lleweni Parc, Dinbych

Cylchredwyd: adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio, yn rhoi gwybod bod apêl wedi'i chyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatâd i osod 20 llety yn y Glyn, Lleweni Parc, Dinbych.
Eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, gefndir yr achos hwn a dywedodd fod caniatâd cynllunio wedi'i wrthod gan y Pwyllgor ym mis Ebrill 2012, ychydig cyn yr etholiadau lleol.

Mae'r apêl am gael ei gwrando drwy Wrandawiad Anffurfiol ddydd Mawrth 18 Medi 2012.

Gan fod y swyddog wedi argymell rhoi caniatâd, roedd cais yn cael ei wneud i ddau gynrychiolydd o'r Pwyllgor Cynllunio roi tystiolaeth yn y Gwrandawiad yn unol â pharagraff 9.3 o'r Protocol Apeliadau Cynllunio a Chynnwys Aelodau. Gofynnodd y swyddogion hefyd am awdurdodiad i benodi ymgynghorydd cynllunio i helpu i baratoi a chyflwyno'r achos yn y gwrandawiad.

Cydnabuwyd na fyddai'r Cynghorydd Ray Bartley (aelod lleol) yn gallu mynychu'r apêl oherwydd ymrwymiadau eraill felly gofynnodd yr Aelodau am enwi'r Cynghorwyr hynny a bleidleisiodd i wrthod y caniatâd ym mis Ebrill. Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol yn ffurfiol i hyn.

O'r Cynghorwyr hynny sy'n dal yn Aelodau Pwyllgor, dywedodd y swyddogion fod y canlynol wedi pleidleisio i wrthod caniatâd:

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Meirick Lloyd-Davies, Colin Hughes, a Cefyn Williams

Roedd y Cynghorydd Colin Hughes yn ansicr am ei gymhwyster am fod ei gyflogaeth newydd mewn twristiaeth efallai'n achos o wrthdaro buddiannau ond roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig penodi cynrychiolydd lleol.

Cynigiwyd enwebu'r Cynghorwyr M. Lloyd Davies a Colin Hughes i gynrychioli'r pwyllgor yng ngwrandawiad yr apêl.
Byddai'r Cynghorydd Richard Davies (yr aelod lleol newydd i ward Dinbych Isaf) yn mynd fel sylwedydd.

Derbyniwyd hyn yn briodol

Cytunwyd ymhellach i benodi ymgynghorydd cynllunio i helpu i baratoi a chyflwyno'r achos.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 10:50 am**